Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

# Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Adroddiad monitro

Mai 2022

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2
2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ..... 2
3. Ymwahanu trefniadau'r DU a'r UE ..... 6
4. Cysylltiadau rhynglywodraethol ..... 6
5. Deddf Marchnad Fewnol y DU ..... 7
6. Fframweithiau cyffredin ..... 8
7. Deddfwriaeth ..... 9
8. Comisiwn y Cyfansoddiad ..... 11
9. Diwygio'r Senedd ..... 12
10. Cyfiawnder ..... 12

# 1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd wrth ymateb iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion y mae'r Pwyllgor wrthi'n eu trafod ar hyn o bryd.

Mae geirfa o dermau allweddol wedi'i chynnwys fel atodiad.

# 2. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am anghydfodau rhwng y DU a'r UE, y cyfarfodydd diweddaraf rhwng y DU a'r UE, gweithredu'r Cytundebau Ymadael a Masnach a Chydweithredu, a datblygiadau eraill, gan gynnwys rhyfel Wcráin a Rwsia.

Mae anghydfodau rhwng y DU a'r UE yn parhau mewn nifer o feysydd:

- Yn Sefydliad Masnach y Byd: Fe wnaeth yr UE gychwyn yr anghydfod Sefydliad Masnach y Byd cyntaf rhwng y DU a'r UE ers Brexit dros gymorthdaliadau a thyrbinau gwynt ar 30 Mawrth. Mae'n honni bod y meini prawf y mae'r DU yn eu defnyddio wrth ddyfarnu cymorthdaliadau ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y môr yn ffafrio'r DU yn hytrach na chynnwys wedi'i fewnforio, a waherddir gan reolau Sefydliad Masnach y Byd.

- Anghydfodau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: Mae cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Partneriaeth Masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn rhoi manylion y gwahanol safbwyntiau ar nifer o faterion masnach. Y rhai a restrir yw TAW ac adennill dyledion, cynrychiolwyr cyllidol, Cronfa Addasiadau Brexit yr UE, cynlluniau ynni adnewyddadwy y DU, rheolau gweithdrefn ar gyfer Gweithgorau y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac a ddylai materion sy'n cael eu codi gan Bwyllgor Masnach Arbenigol y Cytundeb Masnach a

Chydweithredu gael eu cyfeirio at y Cyngor Partneriaeth. Mae materion o'r fath yn cynnwys tatws hadyd a molysgiaid dwygragennog byw, ac artistiaid teithiol. Mae'r cofnodion hefyd yn dangos bod yr UE wedi gwrthod cais y DU i ddiwygio'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar TAW ac adennill dyledion.

- **Hawliau dinasyddion:** Mae'r ddwy ochr yn parhau i godi materion yn y Cydbwyllgor ynghylch gweithredu darpariaethau hawliau dinasyddion y Cytundeb Ymadael.

- **Gogledd Iwerddon**: Mae'r ddwy ochr yn parhau i fynd i'r afael â materion parhaus ynghylch Protocol Gogledd Iwerddon a cheisio atebion parhaol cyn gynted â phosibl. Dywedodd y Financial Times fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ym mis Mai a fyddai'n galluogi Gweinidogion i ddiystyru'r Protocol yn unochrog, gan gynnwys canlyniad y bleidlais cydsyniad democrataidd. Dywedodd Prif Weinidog y DU wrth y BBC ar 23 Mawrth fod deddfwriaeth newydd yn opsiwn.

## Cyfarfodydd y DU a'r UE

**Mae Gweinidogion Cymru neu eu swyddogion wedi bod yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd lle mae'r pwnc mewn maes datganoledig neu faes a gadwyd yn ôl**. Mae'r cyfarfodydd diweddaraf wedi ymdrin â physgodfeydd, ynni, cyfranogiad yn rhaglenni'r UE, gorfodi'r gyfraith, trafnidiaeth awyr a diogelwch hedfan.

**Fodd bynnag, fe wnaethant ddewis peidio â mynd i rai cyfarfodydd yn ymdrin â chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.** Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrth y Senedd ei bod wedi dewis peidio â mynd i'r cyfarfod ar gaffael oherwydd nad oedd unrhyw eitemau ar yr agenda a oedd yn cyfiawnhau ei phresenoldeb. Mae'r agenda a'r cofnodion yn dangos y trafodwyd datblygiadau polisi a deddfwriaethol y DU a'r UE, yn ogystal â materion gweithredu, gan gynnwys cyfnewid ystadegau.

**Roedd swyddogion o Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Ynys Manaw yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd heb Lywodraeth Cymru** ynghylch trafnidiaeth ffordd a TAW, adennill treth a thollau.

**Bydd dau Aelod o'r Senedd yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol fel sylwedyddion ym Mrwsel ar 12-13 Mai.** Mae disgwyl i gynrychiolwyr drafod gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a goblygiadau'r rhyfel yn Wcráin.

**Cyhoeddwyd aelodaeth Grŵp Cynghori Domestig y DU ar 31 Mawrth.** Cynrychiolir Cymru gan nifer o sefydliadau y DU gyfan a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**Mae perthynas rhwng y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau yn parhau i gryfhau**. Cynhaliodd y Senedd gyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf Grŵp Cyswllt y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau ar 17-18 Mawrth 2022. Daeth cynrychiolwyr o bob rhan o'r DU a'r UE. Cynhaliodd y cynrychiolwyr drafodaethau gyda Phrif Weinidog Cymru, Dirprwy Lywydd y Senedd, dirprwyaeth yr UE i'r DU, Natalie Loiseau ASE a Syr Oliver Heald AS. Cynrychiolwyd y Senedd gan Alun Davies AS a Laura Anne Jones AS.

**Mabwysiadodd Pwyllgor y Rhanbarthau farn o blaid cryfhau'r berthynas rhwng y DU a'r UE ym mis Ebrill.** Cafodd y farn, a ddrafftiwyd gan y Cynghorydd Michael Murphy, ei chymeradwyo mewn sesiwn lawn ar 27 Ebrill. Mae'n galw ar y DU a'r UE i gydnabod grŵp cyswllt y DU a Phwyllgor y Rhanbarthau fel cydgysylltydd ffurfiol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac mae'n tynnu sylw at feysydd nas manteisiwyd arnynt ar gyfer cydweithredu pellach rhwng rhanbarthau'r DU a'r UE ar ôl Brexit. Roedd y Comisiynydd Sěfčovič yn y sesiwn lawn a chroesawodd uchelgais Pwyllgor y Rhanbarthau i gryfhau cysylltiadau yr UE a'r DU ar lefel ranbarthol a lleol.

## Gweithredu cytundebau'r DU a'r UE

**Cafodd rheolaethau mewnforio ar symud nwyddau o'r UE/Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr eu gohirio am y pedwerydd tro** ar 28 Ebrill gan Lywodraeth y DU, a hynny tan ddiwedd 2023. Dywedodd Jacob Rees-Mogg, y Gweinidog Cyfleoedd Brexit, y bydd y penderfyniad yn caniatáu i fusnesau Prydeinig ganolbwyntio ar eu hadferiad o'r pandemig, ymdopi â materion cadwyn gyflenwi byd-eang a sicrhau nad yw costau newydd yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr.

**Mae Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, yn dweud bod hyn "yn codi nifer o gwestiynau" am fioddiogelwch ac allforwyr** y mae swyddogion yn "mynd ar eu trywydd ar fyrder", ac addawodd i roi'r diweddaraf am hyn cyn gynted â phosibl.

**Dywedodd y Gweinidog y bydd Safle Rheoli Ffin cyntaf yng Nghymru yn weithredol yng Nghaergybi ym mis Ebrill 2023.** Nid oes gan y safleoedd eraill sydd wedi'u cynllunio i wasanaethu Abergwaun a Doc Penfro, ddyddiadau cwblhau disgwyliedig.

**Cytunodd Cyngor yr UE ar gamau i gadw'r cyflenwad di-dor o feddyginiaethau at ddefnydd pobl i Ogledd Iwerddon,** sef un o ofynion Protocol Gogledd Iwerddon. Mae'r Cyfarwyddeb hefyd yn caniatáu i'r DU roi ei meddyginiaethau ar y farchnad yn Iwerddon, Malta a Chyprus am dair blynedd, gan randdirymu gofyniad yr UE i ddeiliaid awdurdodiadau fod wedi'u sefydlu yn yr UE.

**Cyhoeddodd yr UE gynigion ar gyfer gweithredu a gorfodi cytundebau presennol y DU a'r UE a rhai yn y dyfodol.** Maent yn nodi prosesau mewnol yr UE ar gyfer gwahanol elfennau o bob cytundeb cyfredol. Er enghraifft, mae'r cynigion yn rhoi'r hawl i Aelod-wladwriaethau ofyn am gychwyn proses adolygu y Cytundeb Masnach a Chydweithredu TCA pan fydd mesurau ail-gydbwyso sy'n ymwneud â chwarae teg wedi bod ar waith ers blwyddyn neu fwy. Maent hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd baratoi adroddiad ar eu cais o fewn pum mlynedd ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau ac eraill.

**Trafododd yr Uchel Lys ei achos cyntaf yn ymwneud â rheolau cymhorthdal rhwng y DU a'r UE**, yn benodol Erthygl 10 o Brotocol Gogledd Iwerddon ac egwyddorion rheoli cymorthdaliadau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sy'n rhan o drefn ôl-Brexit y DU. Roedd yr achos yn ymwneud â British Sugar, a fethodd â pherswadio'r llys bod amodau wedi'u torri er budd Tate & Lyle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan George Peretz QC yn EU Relations Law.

## Datblygiadau eraill

### Aelodau o'r UE i Wcráin

**Cymerodd yr UE y camau cyntaf ar gyfer aelodaeth o'r UE i Wcráin mewn cynhadledd i'r wasg ar y cyd rhwng yr UE ac Wcráin ar 8 Ebrill.** Cyflwynodd yr Arlywydd Zelensky holiadur Wcráin ar 18 Ebrill ac mae'n disgwyl penderfyniad ym mis Mehefin. Mae'r rhyfel hefyd wedi ysgogi Moldofa a Georgia i wneud cais am aelodaeth llwybr carlam.

**Mae Erthygl 781 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu rôl i'r DU pan fydd gwledydd newydd yn gwneud cais am aelodaeth o'r UE.** Rhaid i'r UE hysbysu'r DU am geisiadau i ymuno â'r UE, darparu gwybodaeth i'r DU am sut y byddai derbyn cais yn effeithio ar gytundebau'r DU a'r UE, ac ystyried pryderon y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth, sy'n goruchwylio'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac sydd â phwerau yn y maes hwn.

Mae erthygl ddiweddaraf Ymchwil y Senedd yn rhoi crynodeb o effaith y rhyfel ar Gymru.

### Tarfu ar longau ym Môr Iwerddon

**Cafwyd tarfu ar fferïau ym Môr Iwerddon ym mis Ebrill, gan achosi ofnau am gyflenwadau yng Ngogledd Iwerddon.** Fe wnaeth Stena Line atal llongau rhwng Abergwaun, Sir Benfro a Rosslare dros dro er mwyn llenwi bylchau a adawyd gan P&O, a ataliodd ei wasanaethau ar ôl diswyddo 800 o staff heb rybudd ym mis Mawrth. Roedd cludwyr yng Ngogledd Iwerddon yn rhedeg ar gapasiti o 50 y cant.

### Disodli cyllid yr UE

Ar 13 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion newydd am y Gronfa Ffyniant Cyffredin ar ôl Brexit, y mae Llywodraeth Cymru yn honni fydd yn gadael Cymru yn wynebu "colled o dros £1bn mewn cyllid heb ei ddisodli dros y tair blynedd nesaf". Mae'r Prif Weinidog wedi cyhuddo Llywodraeth y DU o dorri ei hymrwymiad blaenorol na fyddai Cymru "geiniog ar ei cholled" ar ôl Brexit. Dangosodd Llywodraeth Cymru ei chyfrifiadau ar 4 Mai, a oedd yn dangos diffyg o £772m. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn y camau cynnar o ystyried goblygiadau cyllid ar ôl Brexit.

## 3. Ymwahanu trefniadau'r DU a'r UE

**Cyhoeddodd Llywodraeth y DU adroddiad 'The benefits of Brexit: how the UK is taking advantage of leaving the EU' ar 31 Ionawr 2022.** Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau ar reoliadau, gwyddoniaeth, data a thechnoleg, busnes a diwydiant, seilwaith a ffyniant bro, hinsawdd, yr amgylchedd ac amaethyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol.

**Ar yr un diwrnod, addawodd y Prif Weinidog Fil Rhyddid Brexit i 'gael gwared ar fiwrocratiaeth yr UE'.** Nid yw'r amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth wedi'i chyhoeddi. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio'r Bil i roi terfyn ar y statws a roddir i gyfraith yr UE a ddargedwir a'i gwneud yn haws i ddiwygio neu ddileu'r gyfraith hon.

## 4. Cysylltiadau rhynglywodraethol

**Cyfarfu'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol am y tro cyntaf ym mis Mawrth,** ar ôl cwblhau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Trafododd y Gweinidogion weithrediad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol; ymagweddau at ddeddfwriaeth y DU a ffyrdd o weithio yn y dyfodol; y Papur Gwyn Ffyniant Bro; a goblygiadau'r rhyfel yn Wcráin i'r DU.

Mewn datganiad, dywedodd y Prif Weinidog ei fod wedi tynnu sylw at "achosion annerbyniol a chynyddol o dorri Confensiwn Sewel", gan dynnu sylw at ohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar ddiwygio'r confensiwn.

**Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Cyllid ei gyfarfod cyntaf** cyn Datganiad Gwanwyn y Canghellor a chyhoeddodd ei gylch gorchwyl.

**Cyfarfu cadeiryddion a chynrychiolwyr pwyllgorau seneddol o bob rhan o'r DU mewn Fforwm Rhyngseneddol newydd ar 25 Chwefror**. Mewn datganiad ar y cyd, fe wnaethant gytuno i wneud y canlynol:

> *ceisio gwella gwaith craffu drwy gyfnewid gwybodaeth ar y cyd a thrwy geisio dull cyson o wella tryloywder ac atebolrwydd ar lefel Gweinidogion a rhynglywodraethol yn ein priod awdurdodaethau.*

**Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Rhyngweinidogol Cysylltiadau'r DU a'r UE ar 17 Chwefror.** Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Senedd nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd bod y cyfarfod wedi'i ail-drefnu ar fyr rybudd.

**Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei** hadroddiad blynyddol **ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer 2021**, gan nodi gwybodaeth am gydweithredu rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig.

# 5. Deddf Marchnad Fewnol y DU

**Gwrthododd y Llys Apêl yr achos a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn herio'r Ddeddf.**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi dadlau bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn "statud cyfansoddiadol", ac mai dim ond drwy wneud newidiadau pendant iddi y gall Senedd y DU ddiwygio statud o'r fath.

Roedd yn dadlau bod Deddf y Farchnad Fewnol yn lleihau pwerau'r sefydliadau datganoledig nid yn benodol ond drwy oblygiad, ac felly'n torri'r egwyddor hon.

**Cadarnhaodd y Llys Apêl** benderfyniad cynharach yr Uchel Lys fod yr achos wedi'i gyflwyno yn gynamserol, gan ddweud y gall y Llys wneud penderfyniad dim ond pan fydd Bil Senedd y dywedir y gallai'r Ddeddf leihau ei effaith bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio caniatâd i apelio at y Goruchaf Lys.

**Ar 22 Mawrth, cyhoeddodd Swyddfa'r Farchnad Fewnol adroddiad cychwynnol ar gyflwr marchnad fewnol y DU.**

Mewn trosolwg o'r newidiadau i reoleiddio ers diwedd y cyfnod pontio, ni chanfu'r OIM unrhyw dystiolaeth o ymwahanu sylweddol ar bolisi newydd rhwng gwahanol wledydd y DU ers diwedd y cyfnod pontio Brexit, ond casglodd enghreifftiau o feysydd lle gallai ymwahanu ddatblygu yn y dyfodol.

**Cytunodd Llywodraeth y DU i greu eithriad o'r Ddeddf ar ddeddfwriaeth plastigau untro.**

Mynegodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban siom ynghylch natur gul yr eithriad. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr erthygl hon gan Ymchwil y Senedd.

# 6. Fframweithiau cyffredin

**Roedd 21 o'r 26 fframweithiau cyffredin arfaethedig yn ymwneud â Chymru erbyn diddymiad Cynulliad Gogledd Iwerddon ddiwedd mis Mawrth.**

Mae pwyllgorau yn y pedair deddfwrfa wedi bod yn craffu ar y fframweithiau cyffredin dros dro. Yn y Senedd:

- Ysgrifennodd y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** at Lywodraeth Cymru gydag argymhellion ynghylch fframweithiau cyffredin ar iechyd, a chwestiynau am y fframwaith cyffredin ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu.
- Bu'r **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus** yn gohebu â Llywodraeth Cymru ynghylch fframweithiau cyffredin ar gaffael cyhoeddus a thaliadau hwyr (trafodion masnachol).
- Fe wnaeth **Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** ymgynghori ar fframweithiau cyffredin o fewn ei gylch gwaith. Hefyd, trafododd y Pwyllgor y fframwaith rheoli a chefnogi pysgodfeydd fel rhan o'i waith craffu ar y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd.

- Bu'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** yn gohebu â Llywodraeth Cymru ynghylch fframweithiau cyffredin ar sylweddau ymbelydrol ac ansawdd aer a chemegau a phlaladdwyr ar ôl cymryd tystiolaeth weinidogol ym mis Chwefror.

Fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol roi'r diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd y rhaglen fframweithiau cyffredin.

# 7. Deddfwriaeth

## Deddfwriaeth y DU

**Cafodd Senedd y DU ei haddoedi ddydd Iau 28 Ebrill. Bydd Araith y Frenhines yn digwydd ddydd Mawrth 10 Mai.**

Cafodd pedwar o filiau'r DU, y mae'r Senedd wedi pleidleisio i atal ei chydsyniad iddynt, Gydsyniad Brenhinol yn Senedd y DU ar 28 Ebrill. Dyma'r biliau:

- Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd;
- Y Bil Cymwysterau Proffesiynol;
- Y Bil Rheoli Cymorthdaliadau; a'r
- Bil Cenedligrwydd a Ffiniau.

**Hefyd, cafodd y Bil Etholiadau Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022.**

Er bod Llywodraeth Cymru wedi argymell yn flaenorol yn erbyn cydsyniad i'r Bil, newidiodd ei barn ar ôl i welliannau Llywodraeth y DU eithrio etholiadau datganoledig yng Nghymru o gwmpas llawer o'r darpariaethau a oedd yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol.

Fodd bynnag, ceir anghytuno o hyd ynghylch darpariaethau argraffnod digidol, y mae Llywodraeth Cymru yn dadlau eu bod o fewn cymhwysedd y Senedd. Ceir anghytuno hefyd o hyd ynghylch cyflwyno gorchmynion anghymhwyso, y mae Llywodraeth Cymru yn dadlau ei fod yn fater datganoledig oherwydd yr effaith ar gymhwyso ar gyfer aelodaeth o'r Senedd ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Adolygiad Barnwrol a Llysoedd ar 28 Ebrill 2022.**

Mae'r Ddeddf yn diddymu'r hyn a elwir adolygiad barnwrol *Cart*. Mae hyn yn cyfeirio at geisiadau a wneir i adolygu penderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys i

wrthod caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar sail gwall cyfreithiol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu y caiff y llysoedd gyhoeddi gorchmynion gohiriedig a gorchmynion diddymu arfaethedig yn unig wrth ddirymu penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

**Cafodd y Bil Diddymu a Galw'r Senedd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2022, gan ddod i rym ar yr un diwrnod.**

Mae'r Ddeddf yn diddymu Deddf Seneddau Cyfnod Penodol 2011, ac yn adfer y pŵer uchelfraint i alw etholiadau cyffredinol y DU i Lywodraeth y DU. Gwrthododd Tŷ'r Cyffredin un gwelliant gan yr Arglwydd yn ceisio gorfodi pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar gynnig diddymu.

**Bydd nifer o filiau'r DU, gan gynnwys y Bil Diogelwch Ar-lein, yn cael eu cario drosodd i sesiwn newydd Senedd y DU.**

Mae biliau eraill a allai effeithio ar Gymru, y disgwylir iddynt fod yn Araith y Frenhines, yn cynnwys:

- Bil Caffael i ddiwygio'r drefn gaffael gyhoeddus bresennol sy'n deillio o'r UE;
- deddfwriaeth ynghylch dileu statws arbennig cyfraith yr UE a ddargedwir yn neddfwriaeth y DU; a
- 'Bil Hawliau' y DU i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol.

## Cydsyniad deddfwriaethol

**Ers yr adroddiad monitro diwethaf ym mis Ionawr 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod 10 cynnig cydsyniad deddfwriaethol a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach.**

Mae'r Senedd bellach wedi pleidleisio i argymell cydsyniad i sawl Bil lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi argymell yn erbyn cydsyniad yn flaenorol, gan gynnwys y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Bil Rhent Masnachol (Coronafeirws), a'r Bil Etholiadau.

## Covid-19

**Daeth mwyafrif y darpariaethau dros dro a oedd yn Neddf Coronafeirws 2020 (nad oeddent eisoes wedi dod i ben yn gynnar) i ben ar 25 Mawrth 2022, fel rhan o'r cymal machlud dwy flynedd yn Adran 89 o'r Ddeddf.**

Cyhoeddodd Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad: 'Coronavirus Act 2020: Two Years On' ar 18 Mawrth.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai defnydd yn y dyfodol o gymalau machlud mewn deddfwriaeth debyg ddod ag esboniad clir ynghylch pam mae hyd y cymal yn gymesur â'r argyfwng y mae'n ymdrin ag ef. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd fynegi pryderon am ddiffyg gallu Senedd y DU i ddiwygio cymalau machlud ar ôl pasio'r Bil.

**Cafodd mwyafrif y mesurau Covid-19 cyfreithiol oedd yn weddill yng Nghymru,** gan gynnwys y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn eiddo manwerthu ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, eu codi ar 28 Mawrth. Daeth y gofyniad i fusnesau gynnal asesiadau risg coronafeirws penodol i ben ar 18 Ebrill.

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** gynllun hirdymor ar gyfer byw gyda Covid-19 ar 4 Mawrth.

Roedd y cynllun yn nodi cyfnod pontio hirdymor o bandemig i endemig, gyda'r Llywodraeth yn "symud tuag at dderbyn y coronafeirws fel clefyd y gellir ei atal drwy frechu, lle mai imiwneiddio yw'r llinell amddiffyn gyntaf fwyaf hanfodol".

Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymateb deddfwriaethol gan Weinidogion Cymru i'r pandemig. Mae hyn yn cwmpasu'r holl bwerau brys yr oedd Gweinidogion Cymru yn eu harfer rhwng 1 Medi 2021 a 31 Mawrth 2022.

**Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei** chylch gorchwyl drafft **ar gyfer yr ymchwiliad cyhoeddus i'r pandemig COVID-19 ar 10 Mawrth.**

Daeth yr ymgynghoriad ar y cylch gorchwyl drafft hwn i ben ar 7 Ebrill. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gadeirio gan gyn-farnwr Llys Apêl y DU, y Farwnes Hallett, a fydd yn gwneud argymhellion terfynol ar gyfer cylch gorchwyl llawn i'r Prif Weinidog ym mis Mai 2022. Nid oes disgwyl i wrandawiadau cyhoeddus ddechrau tan 2023.

# 8. Comisiwn y Cyfansoddiad

**Cyfarfu'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ar 16 Chwefror 2022.**

Lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus ar 31 Mawrth, gan nodi "cyfle i ddweud [wrth y Comisiwn] beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd o ran sut mae Cymru yn cael ei llywodraethu, a beth sydd angen newid". Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 31

Gorffennaf 2022, a disgwylir adroddiad interim yn yr hydref/gaeaf. Disgwylir adroddiad terfynol y Comisiwn erbyn diwedd 2023.

# 9. Diwygio'r Senedd

**Cefnogodd cynrychiolwyr yng Nghynhadledd Llafur Cymru gynnig o blaid cynyddu maint y Senedd i rhwng 80 a 100 o aelodau.**

Dywedodd y cynnig hefyd y dylai diwygio gynnwys dull o ethol sydd 'o leiaf mor gyfrannol â'r dull presennol', a chytunwyd y dylid sefydlu comisiwn ffiniau. Fe wnaeth Plaid Cymru hefyd gefnogi cynigion diwygio yn ei chynhadledd flynyddol, ond mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i wrthwynebu.

Mae disgwyl i'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd gyflwyno adroddiad erbyn 31 Mai 2022.

# 10. Cyfiawnder

## Llywodraeth y DU

**Cwblhaodd Llywodraeth y DU ei hymgynghoriad ar gynigion i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 â Bil Hawliau**

Cafodd y cynigion eu beirniadu'n eang, gan gynnwys gan Gydbwyllgor Senedd y DU ar Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru.

Ar 3 Mai, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol gynlluniau i wneud gwaith paratoi ar opsiynau ar gyfer ymgorffori confensiynau'r Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru.

**Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgynghori ar ei hymateb i adolygiad annibynnol Syr Christopher Bellamy ar gymorth cyfreithiol troseddol.**

Mae'r ymgynghoriad yn nodi cynigion ar gyfer newidiadau i gymorth cyfreithiol troseddol, gan gynnwys cynyddu cyfraddau cymorth cyfreithiol a newid strwythurau ffioedd.

Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi beirniadu yr ymgynghoriad am beidio â chyd-fynd ag argymhelliad Syr Christopher o gynnydd blynyddol mewn cyllid o 15 y cant o leiaf.

**Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder grynodeb o ymatebion i'w hymgynghoriad ar ddatrys anghydfodau yng Nghymru a Lloegr.**

Dywedodd yr adran y byddai'r ymatebion yn llywio gwaith ar ddefnyddio prosesau datrys anghydfodau i gynnig mynediad cyflymach, mwy effeithiol o ran cost a mwy cydsyniol at gyfiawnder, ac y byddai unrhyw gynigion polisi yn destun ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

## Llywodraeth Cymru

**Cyhoeddodd Isbwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar Gyfiawnder gofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2 Chwefror a 29 Tachwedd.**

Yn y cyfarfod ym mis Chwefror, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol 'gyhoeddiad cynllun cyfiawnder' drafft. Ar 4 Mai, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Senedd fod disgwyl y cyhoeddiad "o fewn ychydig wythnosau".

Bu'r Is-bwyllgor hefyd yn trafod amrywiaeth o faterion eraill, gan gynnwys cyfarfodydd â Gweinidogion y DU; ymddeoliad yr Arglwydd Lloyd Jones o'r Goruchaf Lys; cyllid ar gyfer safleoedd tystiolaeth o bell i ddioddefwyr cam-drin domestig gael cymryd rhan mewn llysoedd ynadon; lleihau aildroseddu; a gwaith swyddogol i fapio gofynion ar gyfer data cyfiawnder wedi'u dadgyfuno.

Ym mis Tachwedd, cynhaliodd yr Is-bwyllgor drafodaeth gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a chlywodd ddiweddariad gan swyddogion ar gynlluniau i fabwysiadu dull 'glasbrint' ar y cyd rhwng cyrff datganoledig a chyrff heb eu datganoli i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith.**

Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd tuag at weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan gynnwys ynghylch cynllunio, etholiadau, tacsis a cherbydau hurio preifat, bywyd gwyllt, a Thribiwnlysoedd Cymru.

**Ar 3 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas y Cyfreithwyr a CILEX lwybr prentisiaethau cyfreithiol newydd, sy'n agored i'r rhai dros 16 oed gyda nawdd gan gyflogwyr.**

Bydd prentisiaid yn cwblhau cyfnod Sylfaen (Lefel 3) a chyfnod Uwch (Lefel 5) y Cymhwyster Proffesiynol CILEX, cymhwyster galluogi fel uwch-swyddog paragyfreithiol CILEX neu gyfreithiwr CILEX dan hyfforddiant.

## Y Goruchaf Lys

**Ymddeolodd yr Arglwydd Lloyd-Jones o'r Goruchaf Lys ym mis Ionawr, ar ôl cyrraedd 70 oed. Ers hynny mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol wedi cynyddu'r oedran ymddeol barnwrol gorfodol i 75.**

Yr Arglwydd Lloyd-Jones oedd yr Ustus Goruchaf Lys cyntaf o Gymru ac mae bellach wedi ymuno â phanel atodol y Llys.

O dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, mae'n rhaid i'r Llys gael aelodau sydd â gwybodaeth a phrofiad o ymarfer yng nghyfraith pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Ceisiwyd ceisiadau ar gyfer Ustusiaid newydd yn y gwanwyn.

## Fframwaith ar ôl Brexit: termau allweddol

| | | |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau rhyngwladol | | Dyletswyddau ac ymrwymiadau rhyngwladol y DU |
| Cytundebau masnach | | Sefydlu trefniadau masnachu newydd rhwng y DU a gwledydd eraill |
| Cytundebau rhyngwladol | | Cytundebau rhwng y DU a gwledydd neu sefydliadau eraill |
| Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE | | Sefydlu'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE |
| Cytundeb Ymadael y DU a'r UE | | Gosod telerau ymadawiad y DU o'r UE |
| Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon | | Rhan o'r Cytundeb Ymadael i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon |
| Deddf yr UE (Ymadael) 2018 | | Trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, yn atal deddfau newydd yr UE rhag cael effaith awtomatig yn y DU ac yn rhoi pwerau i Weinidogion gywiro'r llyfr statud ar ôl ymadael â'r UE |
| Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020 | | Gweithredu'r Cytundeb Ymadael |
| Deddf yr UE (y berthynas yn y dyfodol) 2020 | | Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu |
| Deddf Marchnad Fewnol 2020 | | Sefydlu rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau ledled y DU |
| Fframweithiau Cyffredin | | Sefydlu fframweithiau ledled y DU ar gyfer rhai meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE |
| Gweithredu rheoliadau | | Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i weithredu'r trefniadau newydd |
| Cywiro rheoliadau | | Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i sicrhau bod deddfau'r UE a ddargedwir ar ôl ymadael â'r UE yn ymarferol mewn cyd-destun domestig |